# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel |
| Dyddiad: | Dydd Llun, 22 Hydref 2012 |
| Amser: | 15: - 17:30 |

## Cofnodion: AC(4)2012(8)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Peter Black<br>Angela Burns<br>Sandy Mewies |
| Swyddogion yn bresennol: | Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)<br>Dave Tosh (Swyddog)<br>Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)<br>Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog) |
| Eraill yn bresennol: | Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol |

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhodri Glyn Thomas a David Melding

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

## 2. Strategaeth Gwasanaethau TGCh yn y dyfodol

Bydd Cytundeb Merlin, ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh i'r Cynulliad, yn dod i ben yn 2014. Mae'n ofynnol bod y Comisiwn yn hysbysu Llywodraeth Cymru ac Atos o'i benderfyniad ynghylch darparu gwasanaethau TGCh i'r Cynulliad yn y dyfodol erbyn mis Ebrill 2013.
Ym mis Tachwedd 2011, cytunodd y Comisiwn i asesu dau opsiwn: ymestyn cytundeb Merlin; neu symud at ddarpariaeth fewnol gymysg.

Cafodd y Comisiynwyr wybodaeth fwy manwl er mwyn llywio'u penderfyniad ynghylch gwasanaethau TGCh i'r Cynulliad yn y dyfodol. Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o Atos i'r cyfarfod ar 5 Tachwedd er mwyn i'r Comisiynwyr roi ystyriaeth lawn i'r opsiwn o ymestyn cytundeb Merlin.

**Cam i'w gymryd:** Y Comisiynwyr i wahodd cynrychiolwyr o Atos i roi cyflwyniad yn eu cyfarfod ar 5 Tachwedd. Y penderfyniad ynghylch gwasanaethau TGCh yn y dyfodol i'w wneud mewn cyfarfod ychwanegol ar 12 Tachwedd.

## 3. Unrhyw Fusnes Arall

Nid oedd unrhyw fater arall.

Yr Ysgrifenyddiaeth
Hydref 2012